

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 24

Key language

Dyma/Dyna/Dacw
Ar fy mhen fy hun
Mae'n ddrwg gen i

New words

cyn bo hir	before long
disgwyl	to wait
sgwrs	a chat
dwys	profound/serious
hir	long
mynnu	to insist
beio	to blame
hunanol	selfish
unman	anywhere
holi	to inquire
manylion	details
pren	wood
ystyried	to consider
esgeulus	careless
cyfle	a chance
gwag	empty
rheswm	reason
benthyca	to lend/borrow
llogi	to hire
ewyllys	a will
dychmygu	to imagine
loes	an injury
cawod	a shower
noethlymun	in the nude
sychu	to dry
brys	hurry
blin	ill-tempered
sarhaus	insulting
hunanol	selfish
trafod	to discuss
addo	to promise

Main Grammatical Points

Dyma/Dyna/Dacw

Dyma and Dyna and Dacw are three important words that are commonly used in conversation.

Dyma can mean 'this is' or 'here is'

Dyma'r dyn	here's the man or this is the man
Dyma fe	here he is or here it is

Dyna can mean 'there' or 'that's'

Dyna'r problem	that's the problem
Dyna'r pwynt	that's the point
Dyna ti	that's it
Dyna ddigon	that's enough

Very often in conversation this is abbreviated to 'Na – 'Na fe - that's it
'Na ni - there we are

Note that when we refer to something in the distance we use Dacw

Dacw hi	there she is (over there)
Dacw'r car	that's the car (over there)

In south Wales you will often hear 'co – 'co fe - there he is
'co'r bachgen - there's the boy

Don't forget the other use of Dyma and Dyna when someone is talking about a dramatic event in the past. For example - roeddwn i'n croesi'r stryd a dyma ddyn yn rhedeg allan o'r banc gyda mwgwd dros ei ben.

I was crossing the road and a man with a mask over his head ran out of the bank.

Ar fy mhen fy hun

Jenny refers to the time she spent away in a hotel in Tenby and said that she went there

Ar fy mhen fy hun - ar fy mhen fy hun, meaning 'on my own'

Dic replies - Ar dy ben dy hun - on your own

Make a note of the mutations in the following forms:

Ar fy mhen fy hun	on my own
Ar dy ben dy hun	on your own
Ar ei ben ei hun	on his own
Ar ei phen ei hun	on her own
Ar ein pennau ein hunain	on our own
Ar eich pennau eich hunain	on your own
Ar eu pennau eu hunain	on their own

Note that in south Wales, you might hear wrth fy hunan, also meaning on my own.

There are several forms that you might hear when someone is apologising in Welsh.

Mae'n ddrwg gen i

Mae'n ddrwg gen i

Mae'n ddrwg 'da fi in south Wales

Mae'n flin 'da fi also in south Wales

However in everyday speech there is a tendency to use the word 'sori'

Ysbyty Brynaber: Episode 69

Brian has a surprise for Wendy!

Jenny tells Dic that there's something that she wants to say to him.

Geirfa

cyn bo hir	before long
disgwyl	to wait
sgwrs	a chat
dwys	profound/serious
hir	long
mynnu	to insist
beio	to blame
hunanol	selfish
unman	anywhere

Golygfa 1

Wendy - Beth wyt ti'n feddwl? Sypreis?

Brian - Ie..sypreis...

Wendy - Pa sypreis? Beth yw e 'te?

Brian - Sypreis ydy sypreis! Dw i ddim yn mynd i ddweud!

Wendy - I hate surprises! Please tell me!

Brian - Tyrd i mewn i'r car...

Wendy - Ddim tan wyt ti'n dweud wrtho i beth yw'r sypreis!

Brian - Wendy, tyrd i mewn i'r car...yn lle sefyll yn fan yna.

Wendy - Dwed ti wrtho i gynta 'te...

Brian - Na. Dw i ddim yn mynd i ddweud.

Wendy - Pam?

Brian - Gei di weld cyn bo hir.

Wendy - I'm not getting into the car then.

Brian - Wendy! Come on! Dw i'n gorfod bod yn ôl yn y garej mewn llai na awr! Does gen i ddim lot o amser y bore yma!

Wendy - Short cut yourself then. Tell me what's going on.

Wel? Dw i'n disgwyl...

Brian - Na, dw i ddim yn mynd i ddweud! Sypreis ydy o!

Wendy - Brian! Ti'n impossible!

Brian - Belt...A 'blindfold'.

Wendy - Beth?

Brian - 'Blindfold'.

Wendy - You must be kidding!

Brian - Tyrd! Rho hwn dros dy lygaid...

Golygfa 2

Jenny - Richard...?

Dic - Jenny...

Jenny - Oes gen ti eiliad?

Dic - Ar fy ffordd i weld Mr Mollin ydw i...dw i'n credu fod achos o pulmonary embolus gyda fi ar fy nwylo...Pam? Beth wyt ti eisiau?

Jenny - Gair.

Dic - Am beth?

Jenny - Beth wyt ti'n feddwl?

Dic - Edrycha, Jenny. Mae'n flin 'da fi. Ond alla i ddim siarad nawr...

Jenny - Dyna'r broblam. Does byth amsar i siarad.

Dic - Glou 'te...

Jenny - Na. Dw i eisiau sgwrs iawn. Sgwrs ddwys. Hir. A dw i eisiau sgwrs onest...

Mae yna bethau dw i eisiau eu dweud wrthot ti. A dw i'n siwr fod yna bethau rwyf ti eisiau eu dweud

wrtho i...Nac oes?
 Dic - Oes...
 Jenny - Ond does yna byth amser yn yr ysbyty yma...Rwyd ti neu fi wastad yn rhuthro i rhywle arall...A mae Arwyn...
 Dic - Beth am Arwyn?
 Jenny - Yn mynd ar fy nerfau i...
 Dic - Sut mae ei fam e erbyn hyn?
 Jenny - Mae'r glun yn gwella. Fel rwyd ti'n gwbod, wedi ei chracio hi oedd hi a dim ei thorri hi...
 Dic - Fuodd hi'n lwcus...
 Jenny - Ond mae Arwyn mor 'upset'...Ac yn mynnu beio'i hun...
 Dic - Beio'i hun?
 Jenny - Ie...
 Dic - Pam?
 Jenny - Achos ei fod o'n teimlo ei fod o wedi bod yn hunanol trwy fynnu fod ei fam o'n byw mewn cartref...
 Dic - Ble arall allai hi fyw?
 Jenny - Yn hollol. Unman arall. Dyna ddwedais i wrtho fo.
 Dic - Dw i'n siwr bod ei fam e'n cael pob gofal yn y cartref.
 Jenny - Y gofal gorau yn y byd.
 Dic - A damwain gafodd hi ynte?
 Jenny - Ia. Llithro ar y grisiau.
 Dic - Does dim rheswm i Arwyn feio'i hunan 'te.
 Jenny - Dyna beth dw i'n ddweud wrtho fo. Ond dydy o'n gwranddo dim...
 Dic - Sori. Ond mae'n well i fi fynd i weld Mr Mollin.
 Jenny - A cofia be ddwedais i...Dw i eisiau i ni gael sgwrs iawn...
 Dic - Gewn ni sgwrs iawn...Fe gewn ni...

Golygfa 3

Wendy - Pryd gaf fi dynnu'r blindfold yma off?
 Brian - Cyn bo hir rwan...
 Wendy - Ble rydyn ni'n mynd 'te?
 Brian - Oes rhaid i ti holi cymaint? Gei di weld cyn bo hir rwan...
 Wendy - This is really weird. You're a really weird guy, Brian...Has no one ever told you that before?
 I bet nobody has...Am I right? Or am I right?
 Brian - Pwrpas y sypreis yma ydy i godi dy galon di...Gwneud i ti deimlo'n hapus...
 Wendy - Hapus?
 Brian - Ie...Ar ôl be sy wedi digwydd iti...
 Wendy - I hope this isn't a wind-up...Alla i dynnu'r blindfold off nawr?
 Brian - Ddim eto.
 Wendy - Pam?
 Brian - Disgwyl.
 Wendy - Beth wyt ti'n wneud?
 Brian - O.K. Tynna'r blindfold i ffwrdd.
 Wendy - What the hell is this? I'm right outside my house! We've been driving around in bloody circles!
 Brian - Do.
 Wendy - Beth uffern yw'r sypreis 'te? Why are you grinning like that?
 Brian - I ti.
 Wendy - Beth? Y car 'ma?
 Brian - A dyma ti'r allweddi!

Ysbyty Brynaber: Episode 70

Wendy is given a second surprise from Brian - he takes her to a block of brand new flats in Brynaber Marina.

Arwyn's mother is to be discharged from hospital after her fall and he feels that she should move in with Jenny and him.

Jenny reveals her plans for Dic and herself.

Geirfa

manylion	details
pren	wood
ystyried	to consider
esgeulus	careless
cyfle	a chance
gwag	empty
rheswm	reason

Golygfa 1

Brian - Dyna ni...

Wendy - Beth sydd ar y llawr?

Brian - Junk mail...Gad o fod...

Wendy - Wow! God! This is an amazing flat...

Brian - Dyna beth mae 'bumph' yr estate agent yn ddweud hefyd...

Wendy - Sut ffendiaist ti'r lle ffantastig hyn 'te, Brei?

Brian - Wnes i ddigwydd pasio ffenestr yr 'estate agent' p'nawn ddoe...A gweld llun o'r stafell fyw yma...Dyna beth ddaliodd fy llygad i, ti'n gweld...Ac roeddwn i'n meddwl ei fod o'n anhygoel...

Wendy - Anhygoel, ...Pretty anhygoel if you ask me.

Brian - Ac es i i mewn...A chael y manylion i gyd...Trefnu apwyntiad hefo'r ddynes a dy ffonio di - a bingo! Dyma ni...

Wendy - It's so spacious!

Brian - Wyt ti'n licio'r llawr pren 'ma?

Wendy - Great...Brilliant place for a party...

Brian - Flat warming...Fydd rhaid iti gael un...Beth sydd? Rwyt ti wedi mynd yn dawel iawn?

Wendy - This is wishful thinking isn't it?

Brian - Beth?

Wendy - Y fflat yma...

Brian - Na. Na, ddim o gwbl! Dyna'r peth, dyna'r pwynt, Wendy...Os wyt ti'n licio fo, dy fflat di fydd o. O heddiw ymlaen...

Wendy - Ond faint fydd e'n costio?

Brian - Paid ti â phoeni am hynny...

Wendy - Brian, you really can't afford to pay the rent.

Brian - Wendy, alla i fforddio unrhywbeth. Fel basai Jac Whelan yn ddweud 'Money is no object.'

Golygfa 2

Arwyn - Wyt ti wedi bod i weld fy mam i, Richard?

Dic - Do. Ges i sgwrs â hi ar y ward ddoe, Arwyn...

Arwyn - Dw i'n credu ei bod hi'n dod ymlaen yn wych...ac ystyried ei hoedran hi...

Dic - Ydy - mae hi...Gwych iawn...

Arwyn - Ond yr hyn sy'n fy mecso i nawr yw beth sy'n mynd i ddigwydd iddi ar ôl gadel yr ysbyty yma...

Dic - Beth wyt ti'n feddwl?

Arwyn - Dw i ddim yn hapus iawn i weld Mam yn mynd yn ôl i'r cartre 'na...

Dic - Na, alla i ddeall dy resymau di...

Arwyn - Dim fy mod i'n trio dweud bod y staff yn esgeulus na dim...Ond fyddwn i fy hunan ddim yn hapus fy meddwl...

Dic - Beth fyddai orau gan dy fam?

Arwyn - Wel, dyna'r peth...O, yffach! Fy 'bleeper' i! Esgusoda fi, Richard...

Jenny - Oes lle i un fach ar y gadair yma?

Dic - Mae hi'n dal yn gynnes...

Jenny - Dal yn gynnes?

Dic - Dim ond newydd adael mae Arwyn.

Jenny - I redeg at ei fam eto?

Dic - Dw i ddim yn siwr am hynny...

Jenny - Ti'n iawn?

Dic - Ydw. A ti?

Jenny - Dw i wedi bod yn meddwl, ti'n gwbod...

Dic - Meddwl am beth?

Jenny - Beth fyddai orau inni wneud...A'r ffaith ein bod ni heb gael cyfle i fod hefo'n gilydd...Cael cyfle i siarad yn iawn...Sori. Wnei di basio'r papur o'r bwrdd nesa imi? Mae'r pot yma yn hollol wag... Diolch.

Dic - Ydy hwn yn well?

Jenny - Lot gwell. Edrycha. Pupur du...A dyna pam dw i'n meddwl y basai'n syniad da i ti a fi fynd i ffwrdd am benwythnos...Does dim eisiau iti edrych mor syn.

Dic - Sut yn y byd mawr ti'n mynd i drefnu 'ny?

Jenny - Mae Arwyn wedi bod i ffwrdd yn golffio hefo'i ffrindia yn Portiwgal...Pam na cha i ddim mynd i ffwrdd am benwythnos o siopa?

Dic - A fyddde Arwyn yn credu ti?

Jenny - Pa reswm sydd ganddo fo i beidio? Mae yna westy bach i lawr yn Sir Benfro...Lle bach tawel...Ar lan y môr...Fues i'n aros yno cyn y Nadolig...

Dic - Gyda Arwyn?

Jenny - Nage. Ar fy mhen fy hun.

Dic - Ar ben dy hun? Pam?

Jenny - Stori hir. Ond os ddoi di yno hefo fi, Dic - mi gei di glywed y cwbl...A mwy...A dw i eisiau dod i dy nabod di yn well...Yn lot gwell...

Jenny - Beth amdani?

Dic - Ti'n siwr?

Jenny - Yn hollol siwr. Awn ni i Sir Benfro? Beth wyt ti'n ddeud?

Ysbyty Brynaber: Episode 71

Wendy tells Dic about her new car and new flat.

Arwyn asks Jenny whether she's prepared to let his mother come and stay with them during her convalescence.

Jenny gives him a chilling ultimatum.

Geirfa

benthyca	to lend/borrow
llogi	to hire
ewyllys	a will
dychmygu	to imagine
loes	an injury
cawod	a shower
noethlymun	in the nude
sychu	to dry
brys	hurry
blin	ill-tempered
sarhaus	insulting
hunanol	selfish
trafod	to discuss
addo	to promise

Golygfa 1

Dic - Ti eisiau help?

Wendy - Dic. Heia...

Dic - Yffach. Ti'n fishi. Beth wyt ti'n wneud?

Wendy - Symud i mewn i fflat newydd.

Dic - Wir?

Wendy - Ie. A good riddance to this damp old dump. That robber baron of a landlord can go stuff himself...

Dic - Hei! Mae lot o stwff gyda ti...Edrycha'r car yma...Mae e'n llawn dop yn barod...

Wendy - And this is the third trip.

Dic - O leia mae e'n gar gweddol o faint...

Wendy - Ydy...

Dic - Pwy wnaeth ei fenthyca fe iti?

Wendy - Neb.

Dic - O, dw i'n gweld...Wedi ei logi fe am y dydd wyt ti?

Wendy - Na.

Dic - Beth 'te?

Wendy - Don't be so nosey! Car fi yw e.

Dic - Dy gar d? Hwn?

Wendy - Ie. Hwn!

Dic - Ond sut? Mae e bron fel newydd.

Wendy - Dw i'n gwbod.

Dic - Wel, sut yffach wnest ti allu ei fforddio fe 'te?

Wendy - Edrycha, Dic: dw i ddim yn dy holi di fel hyn ydw i? Felly paid ti â fy holi i. O.K, pal?

Dic - Ble mae'r fflat newydd yma 'te?

Wendy - Lawr yn y Marina.

Dic - Lawr yn y Marina?

Wendy - Ie...Third floor, lift a phopeth with a garej too and a really amazing view of the sea...It's a dream come true...

Dic - Arian o ewyllys dy dad ti wnaeth dalu am hyn, ie?

Wendy - Ewyllys? What?

Dic - Will. Money from your father's will paid for all this, yes?

Wendy - Na.

Dic - Na?
Wendy - Na, Dic...I've got a mystery man...A sugar daddy who just loves to look after me...
Ti ddim yn fy nghredu i?
Dic - Ydw i fod i dy gredu ti?
Wendy - Dw i'n dweud y gwir wrthot ti. Fel dwedais i'r gwir wrth y Panel Disgyblu stiwpid yna...
Dic - Ti jest yn dweud hyn i...Dw i ddim yn gwybod...Beth yw'r gair? Ti'n gwneud hyn...you're doing this to torment me aren't you?
Wendy - Na...
Dic - Wyt, wyt ti...Dw i jest ddim yn deall pam wyt ti'n fy nghasau i gymaint...
Wendy - I don't hate you...
Dic - Wel, rwy'ti'n bihafio fel hynny! Dw i'n credu bod hi'n well i ti a fi beido gweld ein gilydd am sbel fach...
Wendy - Good idea.
Dic - O.K. Cadw mas o ffordd ein gilydd. Dyna'r peth gorau i ni ein dau, dw i'n credu.
Wendy - Absolutely.
Dic - Ond jyst cofia un peth: dw i'n caru ti, Wendy. Caru ti yn fwy na elli di ddychmygu byth...A dw i ddim eisiau dy weld ti'n rhoi loes i dy hunan.
Wendy - What? What does that mean?
Dic - It means: don't mess up your life. Ti'n deall? Cymer ofal...Jest cymer ofal...

Golygfa 2

Arwyn - Jenny?
Jenny - Beth?
Arwyn - Wyt ti'n dal yn y bath yna?
Jenny - Ydw...Pam?
Arwyn - Dw i eisiau cawod...Dere mas wnei di?
Jenny - Rwan?
Arwyn - Os nac oes ots gyda ti.
Jenny - Rwy'ti'n noethlymun.
Arwyn - Noethlymun, ydw! Wrth gwrs fy mod i'n noethlymun. Fyddet ti'm yn disgwyl i fi gamu i mewn i'r gawod yna yn fy nillad, fyddet ti?
Jenny - Gad i mi orffen sychu fy hun gynta.
Arwyn - Elli di ddim sychu dy hunan yn y 'bedroom'?
Jenny - Beth ydy'r brys yma?
Arwyn - Pam wyt ti mor grac trwy'r amser?
Jenny - Fi?
Arwyn - Ie. Ti. Mae fel petai popeth dw i'n wneud neu'n ddweud yn hala ti'n grac i gyd...
Jenny - Petaet ti'n talu cymaint o sylw i mi a ti'n dalu i dy fam efallai y baswn i'n llai blin.
Arwyn - Paid ti â meiddio siarad yn sarhaus am Mam.
Jenny - Pam wnest ti ddim dweud dy fod ti'n bwriadu ei gwahodd hi yma i fyw aton ni?
Arwyn - Achos fy mod i'n meddwl y byddet ti'n fwy na bodlon iddi ddod yma i fyw aton ni.
Jenny - Fwy na bodlon? Ti'n tynnu nghoes i?
Arwyn - Mae Mam wedi bod yn dda iawn wrthot ti erioed.
Jenny - Ydy. Yn beirniadu. A phigo beia. A bod yn gas...
Arwyn - Nawr, nawr. Ti'n gwybod fod hynna'n annheg.
Jenny - Annheg? Ddim o gwbl! Ti'n cofio sut oedd dy fam yn bihafio yn y ty yma dros y Nadolig?
Arwyn - Joiodd hi mas draw.
Jenny - Efallai ei bod hi - ond wnes i ddim!
Arwyn - Roiaist ti ddim cyfle iddi!
Jenny - Roiais i ddigon o gyfle iddi! Ond mae hi mor hunanol!
Arwyn - Paid â siarad dwli!
Jenny - Dydw i ddim!
Arwyn - Wyt, wyt ti!
Jenny - A dw i'n dweud wrthot ti rwan, Arwyn - os daw dy fam di o'r ysbyty i fyw yma aton ni...Wel, dw i'n deud wrthot ti rwan mai dim ond un ddynes fydd yn byw o dan y to yma.
Arwyn - Ti'n bod yn hollol afresymol nawr.
Jenny - Dewis di, Arwyn. Dy fam neu fi.
Arwyn - Allwn ni drafod hyn rhywbryd eto?

Jenny - Na! Rwan. Dewis di. Dy fam. Neu fi.

Arwyn - Ti'n fy rhoi fi mewn sefyllfa hollol amhosib. Dw i wedi addo i Mam yn barod. A dw i ddim yn mynd i dorri fy ngair i fy mam fy hun. A dyna ddiwedd y mater!

Synopsis

Brian has showered Wendy with gifts - first a brand new car and then a luxury flat at the marina.

Jenny has asked Dic to spend a weekend with her in a hotel in Pembrokeshire.

Jenny has given Arwyn an ultimatum:

Jenny - Dewis di. Dy fam. Neu fi.

Arwyn - Ti'n fy rhoi fi mewn sefyllfa amhosibl. Dw i wedi addo i Mam yn barod. A dw i ddim yn mynd i dorri fy ngair i fy mam fy hun. A dyna ddiwedd y mater!

Test yourself

1. What is the Welsh for the phrase 'before long'?
 - a) ar ôl amser
 - b) **cyn bo hir**
 - c) cyn amser
2. Translate 'on your own' into Welsh
 - a) wrth ei hun
 - b) ar eu pennau eu hunain
 - c) **ar eich pen eich hun**
3. What is the Welsh for 'there's the car (over there)'?
 - a) Dyma'r car
 - b) **Dacw'r car**
 - c) Dyna'r car
4. What's the Welsh for 'to borrow'?
 - a) brathu
 - b) bathodyn
 - c) **benthyca**
5. How would people in south Wales say 'I'm sorry' in Welsh?
 - a) **Mae'n flin gyda fi**
 - b) Mae'n dda gyda fi
 - c) Mae'n ddrwg ganddo fe?
6. How would you translate 'You're selfish' into Welsh?
 - a) Rwy'ti'n annheg
 - b) **Rwy'ti'n hunanol**
 - c) Rwy'ti'n anodd